


### Adeiladu twr

Bydd angen dis a blociau neu friciau lego ar gyfer y gêm hon.

- ◆ Cymerwch dro.
- ◆ Rholiwch y dis.
- ◆ Casglwch nifer y briciau sydd eu hangen i adeiladu eich twr.
- ◆ Y cyntaf i 10 sy'n ennill!




Am newid, dechreuwch gyda 10 bloc neu 10 bric yr un. Tynnwch y rhif sydd ar y dis. Y cyntaf i sero sy'n ennill.

### Rholio siâp

Torrwch 12 siâp.


Gwnewch 3 thriogl, 3 sgwâr, 3 phetryal a 3 chylch.

- ◆ Cymerwch dro i rolïo'r dis a chasglu siâp â'r nifer hynny o ochrau, e.e. rholio 4, casglwch sgwâr.
- ◆ Yr un cyntaf i gael pedwar siâp gwahanol sy'n ennill.
- ◆ Os gallwch enwi pob siâp, chi sy'n mynd yn gyntaf y tro nesaf!



# Targedau i ddisgyblion yn y Dosbarth Derbyn

YGG Castell-nedd



Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plentyn

## Targedau – Derbyn 2

**Erbyn diwedd y flwyddyn hon, bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu...**

- Dweud un, dau, tri, pedwar ... hyd at ddau ddeg.
- Cyfrif hyd at 10 eitem .
- Adnabod y rhifau ysgrifenedig 1, 2, 3, 4... hyd at 9.
- Defnyddio geiriau fel *mwy*, *llai*, *trymach*, *ysgafnach* i gymharu pethau.
- Dod o hyd i 1 yn fwy neu 1 yn llai nag unrhyw rif o 1 i 10.
- Adio dau grŵp bach o bethau (cyfanswm 10 neu lai).
- Cyfrif sawl un sydd ar ôl pan fydd rhai pethau'n cael eu tynnu.
- Gwneud patrymau syml a siarad amdanynt.
- Enwi siapiau fel *cylch*, *sgwâr*, *triongl*, *petryal*, *ciwb*, *côn* a *sfêr*.
- Defnyddio geiriau fel *dros*, *o dan*, *uwchben*, *islaw*, *ar*, *yn*, *nesaf at*, *yn ymyl*, i ddisgrifio ble mae pethau.

## Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai eich plentyn allu eu gwneud erbyn diwedd y flwyddyn Dderbyn.

Mae rhai o'r targedau yn fwy anodd mewn gwirionedd e.e efallai y bydd plant sy'n gallu cyfrif i 10 yn dal i gael trafferth i ddweud pa rif sy'n dod ar ôl 5. Efallai y bydd yn rhaid iddynt gychwyn ar 1 a chyfrif ymlaen.


## Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

### Rhigymau

Dysgwch unrhyw rigymau neu ganeuon rhif yr ydych chi yn eu gwybod, yn enwedig rhai sy'n gofyn am ddal nifer o fysedd i fyny. Beth am ymarfer y rhain yn aml, gyda'r symudiadau. Gallwch gael caneuon cyfrif ar dâp am bris rhesymol iawn.

### Cyfrif gyda dis

Cymerwch dro i rollo dis a chyfrif yn ôl i sero o'r rhif a daflwyd gan y dis. Er enghraifft:



Pedwar, tri, dau, un, sero!